O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 2408 (Cy. 258)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A550 (Cyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *18 Medi 2012* |
| *Yn dod i rym* | *1 Hydref 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A550) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A550 (Cyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 18:30 o'r gloch ar 1 Hydref 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *(" "the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw yw'r ffordd ymuno tua'r gorllewin â chefnffordd yr A550 wrth Gyfnewidfa Glannau Dyfrdwy, yn Sir y Fflint, sy'n ymestyn o bwynt wrth ffin Cymru/Lloegr i bwynt lle y mae'n uno â'r A5117, cyfanswm pellter o 135 o fetrau.